Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

**19/12/25**



**Nadolig Llawen!**

Annwyl Rieni,

**<u>Neges ddiwedd tymor</u>**

Ar ddiwedd y tymor, gyda'r gwyliau Nadolig ar y gorwel, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i chi, rieni, am eich holl gefnogaeth i ni fel ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae Ysgol Pen Barras yn ysgol llawn bwrlwm – ac mae hyn yn dyst i'r bartneriaeth gref rhwng disgyblion, staff, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen iawn i bawb. Gobeithio y cewch gyfle i fwynhau ac i ymlacio gyda'ch teuluoedd a'ch anwyliaid.

**<u>HMS</u>**

Mae HMS wedi'i drefnu yn yr ysgol ar gyfer Dydd Llun, Ionawr 5ed, 2026. Bydd yr ysgol yn ailagor i bawb ar Ddydd Mawrth, Ionawr 6ed, 2026.

**<u>Dyddiadau'r tymor</u>**

Bydd rhestr o ddyddiadau allweddol ar gyfer y tymor nesaf yn cael ei hanfon at rieni yn ystod yr wythnos gyntaf yn ôl.

**<u>Staffio</u>**

Yn ddiweddar, fe benodwyd Mrs Ceri Roberts (sydd eleni ar secondiad gyrfa o'i swydd dysgu) i swydd newydd yn Adran Addysg Wrecsam gyda chyfrifoldeb dros y Gymraeg. Rydym yn hynod falch ohoni ac yn dymuno'r gorau iddi yn y dyfodol gyda'r swydd newydd.

Mae cysylltiad Mrs Roberts ag Ysgol Pen Barras yn mynd yn ôl sawl blwyddyn – fel rhiant, athrawes, uwch athrawes ac, wrth gwrs, fel Pennaeth Mewn Gofal. Buom yn ffodus iawn o gael person mor driw, ffyddlon a dibynadwy yn aelod o'n staff. Estynnwn ein dymuniadau gorau iddi wrth iddi gychwyn ar y swydd newydd ym mis Ionawr 2026.

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, byddwn hefyd yn croesawu'n ôl Miss Ffion Hughes, Dirprwy Bennaeth ac athrawes dosbarth Celyn, ar ôl cyfnod o absenoldeb yn dilyn llawdriniaeth. Edrychwn ymlaen at ei chroesawu'n ôl i'r ysgol.

**Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd. Pob dymuniad da i chi oll ar gyfer 2026!**

Yn gywir,

**Dyfan Phillips** a Staff Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

*19/12/25*



**Merry Christmas!**

*Dear Parents,*

*__End of Term Message__*

*As the term draws to a close and the Christmas holidays approach, I would like to sincerely thank you, parents, for all your support to us as a school throughout the year. Ysgol Pen Barras is a vibrant and lively school – a true reflection of the strong partnership between pupils, staff, parents, governors, and the wider community.*

*I would like to wish everyone a very Merry Christmas. I hope you find time to relax and enjoy the festive season with your families and loved ones.*

*__INSET Day-__ An INSET day has been arranged at the school for Monday, 5th January 2026. The school will reopen to all pupils on Tuesday, 6th January 2026.*

*__Term Dates-__ A list of key dates for the next term will be sent out to parents during the first week back.*

*__Staffing-__ We are delighted to share that Mrs Ceri Roberts (currently on a career secondment from her teaching post) has recently been appointed to a new role within Wrexham Education Department, with responsibility for the Welsh language. We are extremely proud of her and wish her every success in the future and in her new position.*

*Mrs Roberts' connection with Ysgol Pen Barras goes back many years – as a parent, teacher, senior teacher, and of course as Acting Headteacher. We have been very fortunate to have had such a loyal, dedicated, and dependable member of staff. We extend our very best wishes to her as she begins her new role in January 2026.*

*At the start of the new year, we will also be welcoming back Miss Ffion Hughes, Deputy Headteacher and Celyn class teacher, following a period of absence after surgery. We look forward to her return.*

***Wishing you all a Merry Christmas and a Happy New Year. Best wishes to you all for 2026!***

*Kind regards,*

***Dyfan Phillips** and Ysgol Pen Barras Staff*